JEHOFAH—Y CREAWDWR MAWR

Nodyn i'r siaradwr:
Gan ddefnyddio'r ffeithiau a'r ffigyrau a grybwyllir ynglŷn â mawredd ac amrywiaeth gweithredoedd creadigol Jehofah, pwysleisiwch pam mai ef yn wir yw'r Creawdwr Mawr. Dangoswch fel y medrwn ni, fel rhan o'i greadigaeth, ei glodfori am ei weithiau creadigol a pham y dylem wneud felly

JEHOFAH YN UNIG YW'R CREAWDWR (6 mun.)

'Does neb arall all gymharu â Jehofah (Darllen Salmau 97:9)

Fe'i disgrifir fel "Y Goruchaf" 50 gwaith yn y Beibl

Ac yntau'r Achos Cyntaf mawr, ef yn unig sydd heb fod wedi'i greu, heb ddechreuad (Dat 10:6)

Ganddo ef mae'r safle goruchaf a therfynol yn y bydysawd-ef sydd â'r awdurdod brenhinol dros y bydysawd (Salmau 113:4, 5)

Ni ellir cymharu dim un o'r angylion, na hyd yn oed ei Fab cyntafanedig, ag Ef (Salmau 89:6)

Mae gan Jehofah safle unigryw fel *unig* Greawdwr yr holl bethau creëdig (Neh 9:6; Eseia 40:28)

Daw'r gair "creu" o'r ferf Hebraeg *ba·ra'′*—a ddefnyddir yn unig dim ond ynglŷn â Jehofah (Gen 1:1, 21, 27; 2:4; *it*-1 526)

Pan siarada Duw gyda'i athrylith o bensaer yn Genesis 1:26, y ferf Hebraeg *'a·sah′* a ddefnyddir; ystyr hyn yw "gwneud" ac awgryma y gallai bod eraill â rhan yn y 'gwneud'

Cyd-weithiwr nid cyd-greawdwr yw'r athrylith o bensaer (Diar 8:30; Col 1:15, 16)

Rhoddodd Iesu ei hun y clod am y creu i Dduw (Mth 19:4-6)

MAE'N ADDAS GALW JEHOFAH YN "GREAWDWR MAWR" (8 mun.)

Disgrifir Jehofah hefyd yn "dy Greawdwr Mawr" yn Pregethwr 12:1 (*NW*)

Pan fo cyfieithiadau eraill yn dweud dim ond "Creawdwr," maen' nhw'n peidio â rhoi llawn ystyr y testun Hebraeg gwreiddiol

Mae'r gair "Creawdwr" yn cael ei ddefnyddio yn y lluosog, yn dynodi rhagoriaeth neu ysblander gogoneddus (Job 35:10; Eseia 54:5, *NW*)

Mae'r ymadrodd "Creawdwr Mawr" yn helpu cyfleu safle anghymharol Jehofah

Dynoda ardderchowgrwydd digymar, urddas; ei uchafiaeth a'i ogoniant arswydus a'i nerth

Gwelir mawredd Jehofah yn natganiad agoriadol y Beibl (Gen 1:1)

Dyna gyflawniad a ddarlunir yma—creu bydysawd arswydus! (*ce* 115-27)

Mae Jehofah wedi bodoli erioed, ond nid felly'r sylwedd a'r ynni sy'n ffurfio'r bydysawd (Salmau 90:2)

Fel arall, ni fyddai'r ymadrodd "dechreuad" yn addas

Sut daeth "y nefoedd a'r ddaear" i fodolaeth trwy ewyllys Duw?

'Roedd "ysbryd" Jehofah, ei rym gweithredol, yn gyfrifol am y creu (Salmau 33:6; Gen 1:2)

Mae trefn yn holl greadigaethau Duw, 'does dim anhrefn yn perthyn iddyn' nhw, a 'dydyn' nhw ddim yn bodoli drwy hap a damwain (1Cor 14:33; Job 38:1, 4-11, 31-33)

Mae pob un o greadigaethau Jehofah yn berffaith—yn ardderchog! (Deut 32:4)

'Ydym ni'n cydnabod hynny a dangos gwerthfawrogiad iddo? (Preg 3:14; Salmau 139:14)

YSBLANDER GWEITHREDOEDD JEHOFAH (15 mun.)

Ni chyfyngir creadigaethau Jehofah i ddim ond ychydig o bethau

Yn gywir, fe'i gelwir "Meddiannydd nef a daear" (Gen 14:19, 22, *BCL*)

Ei waith llafur cyntaf a blaenaf oedd ei athrylith o bensaer—ei "unig-anedig Fab" (Diar 8:22, 23, 30; In 3:16, *BCL;* Dat 3:14)

Ac yntau'n "ddechreuad creadigaeth Duw," fe'i defnyddiwyd gan Jehofah wrth greu pob peth arall (Col 1: 15-17; In 1:3)

Y llafur nesaf oedd gwneud lluoedd yr angylion nefol (Dan 7:10)

Yna daethpwyd â'r nefoedd a'r ddaear materol a'r holl elfennau i fodolaeth (Gen 1:1; Job 38:4-7)

Mae'r blaned Daear yn waith llafur unigryw gan Jehofah

Dyma'r unig blaned lle ceir bywyd—mae'n cynnal pum miliwn neu ragor o rywogaethau gwahanol o blanhigion ac anifeiliaid (*ce* 129; *g*87 7/8 30)

Mae'r ddaear yn llawn o waith llafur meistrolgar Jehofah

Genesis 1:11, 12—20,000 math gwahanol o goed; 300,000 rhywogaeth planhigion (*w*83 11/15 7; *g*89 1/8 18; *ce* 147-9)

Genesis 1:20—30,000 math o bysgod; 9,000 rhywogaeth adar; dros 800,000 math o drychfilod eisoes wedi'u dosbarthu (*ts* 145-6; *w*83 11/15 7; *it*-1 1201)

Genesis 1:24—14,000 math o greaduriaid y tir (mamaliaid, amffibiaid, ac ymlusgiaid) (*g*70 10/8 16)

Mae dyn yn dal i ddysgu, a chanfod rhagor o rywogaethau (*g*90 11/8 29)

Po fwyaf yr archwilir y greadigaeth, y mwyaf y canfyddir cynllun deallus

Mae gweithredoedd y Creawdwr Mawr yn tystiolaethu i'w Dduwdod a'i allu (Rhuf 1:20)

Gwelir grym aruthrol y tu hwnt i amgyffred yn y bydysawd materol (*w*86 1/15 16)

Adlewyrchu grym deinamig y Creawdwr mae hyn (Eseia 40:25, 26)

Yn sicr, mi fedrwn ddweud gyda'r salmydd (Salmau 104:24, 25)

"CREADIGAETH NEWYDD" JEHOFAH (6 mun.)

Dim ond oddi wrth ei weithredoedd creadigol daearol ar ran y ddynoliaeth y gorffwysodd Duw ar y seithfed dydd (Gen 2:1-3)

Mae ei weithgarwch creadigol yn parhau ymhell o fyd dyn (In 5:17)

Mae Duw yn parhau i gyflawni pethau mawr mewn modd ysbrydol

Mae "creadigaeth newydd" yn cael ei ffurfio (2Cor 5:17)

Yn union fel daeth Iesu adeg ei fedydd yn 'greadur newydd,' felly ganed "creadigaeth newydd" adeg Pentecost, 33 C.C.

Bedyddiwyd pob person oedd yn bresennol ag ysbryd glân Duw yn fab ysbrydol iddo, a dod yn rhan o'r "greadigaeth newydd" (1Pedr 1:23)

Ychwanegwyd canlynwyr eraill i Grist, hyd at gyfanswm o 144,000 (Dat 14:1-5)

Comisiynwyd y "greadigaeth newydd" i gyhoeddi "mawrion weithredoedd Duw," gan gynnwys newyddion da'r Deyrnas (Ac 2:11)

Yn y dyfodol y bwriad yw i'r 144,000 fod yn gyd-deyrnaswyr gyda Christ Iesu, yn gweinyddu bendithion y Deyrnas ar gyfer y ddynoliaeth (Dat 20:4-6)

Gwireddir mawredd pwrpas y "greadigaeth newydd" pan gyflawnir Eseia 11:9

Mor hapus fyddwn y pryd hwnnw i elwa gan eu teyrnasu!

Ein braint ni 'nawr yw cael cyfran gyda nhw yn taenu newyddion da'r Deyrnas

BYDD HOLL WAITH Y CREAWDWR YN EI GLODFORI (10 mun.)

Bwriad Jehofah yw y bydd ei holl "waith" a'i "saint" teyrngar yn ei glodfori (Salmau 145:10)

Mae'r greadigaeth difywyd yn rhoi clod mud i Jehofah fel Creawdwr a Chynlluniwr (*ce* 115-28)

Mae gan y greadigaeth ddeallus y fraint o roi diolch bwriadus a chlod i Dduw (Darllen Salmau 145:1-3)

Heddiw, mae gweddill y "greadigaeth newydd" yn clodfori Jehofah drwy ganu 'cân Moses a'r Oen' (Darllen Datguddiad 15:2, 3)

Fel y mynega caneuon Moses, maen' nhw'n dyrchafu Jehofah fel Brenin fydd 'yn teyrnasu byth bythoedd' a Dialydd ei wrthwynebwyr (Ex 15:1-19; Deut 31:30–32:43)

Mae'r gân yn llawenhau cannoedd o filoedd o rai eraill sy'n cydnabod yr Un y perthyn gwaredigaeth iddo (Dat 7:9, 10)

O gydnabod eu Creawdwr, mae pobl y cenhedloedd yn dod ynghyd i addoli Duw a gogoneddu ei enw (Darllen Datguddiad 15:4)

Ac yntau'n Greawdwr pob peth, mae Jehofah yn deilwng o bob addoliad ac anrhydedd (Dat 4:9-11)

'Fyddwch chi ymhlith y rhai yn ymuno i gydnabod Jehofah y Creawdwr Mawr?

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir)